


Canllawiau i Ymgeiswyr: Teithiau Hamdden a Digwyddiadau Untro



Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi manteision iechyd a lles teithiau grŵp. Deallwn fod tripiâu a digwyddiadau cymunedol yn dod â manteision sylweddol o ran ansawdd bywyd i rai aelodau o'r gymuned – gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol – yn enwedig mewn cymunedau lle mae opsiynau trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Maent yn helpu pobl hŷn yn arbennig i gyfarfod a chymdeithasu gyda'i gilydd, gan feithrin ysbryd cymunedol a chysylltiadau cyfeillgarwch. Gellir ystyried ceisiadau sy'n cynnwys cost teithiau a digwyddiadau ar gyfer dyfarniadau grant y Gronfa Micro. Fel arfer, ni fyddai unrhyw grant a ddyfernir yn fwy na £1,100.

Yn eu cynigion, mae angen i grwpiau ddangos that:

1. maent wedi meddwl yn ofalus am gyrchfannau neu gynlluniau tripiâu ar gyfer y digwyddiad a gallant ddweud wrthym sut y byddai aelodau'r grŵp yn elwa / bod aelodau'r grŵp wedi trafod opsiynau ac wedi cytuno gyda'i gilydd ar y cynllun
2. maent wedi costio pob elfen yn ofalus
3. mae croeso i anyone sydd am gymryd rhan yn y gweithgaredd wneud hynny oni bai bod rhesymau cadarn pam nad yw hyn yn bosibl.

Gellir gweld Polisi Cyfle Cyfartal y Gronfa Gymunedol ei hun yma.

Rydym yn cydnabod y gellir gwireddu prosiectau a gweithgareddau da weithiau drwy chwistrellu symiau cymharol fach o arian ar yr adeg iawn ac ar sail untro. Fel arfer, byddem yn annhebygol o ariannu teithiau cymdeithasol tebyg o fewn cyfnod o 3 blynedd – ond rydym bob amser yn annog ymgeiswyr i siarad â ni.

Noder: nid yw cydymffurfio â'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn gwarantu y bydd cais yn llwyddiannus – mae'n rhoi syniad o rai elfennau o'n proses asesu a'n meini prawf.